Cyngor Cymuned Llanpumsaint
Nodiadau Cyfarfod : 05.11.13
Neuadd Goffa 8.00 y.h

Presennol : Y Cynghorwyr ; Dylan Jones, Danny Davies, Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst, Malcolm Howells, Y Cynghorydd Sîr, Irfon Jones.
Ymddiheuriadau : Elfed Davies.

Rhif Agenda	**Nodiadau/ Pendefyniadau**	**I'w weithredu gan**
Cofnodion: Cywiriadau Yn gywir:	Angen ychwanegu enw ED I'r rhestr o Gynghorwyr oedd yn bresennol. Baw cŵn – cerddwyr cŵn arall yn glanhau ar eu hôl, nid yn unig Derick Locke. Ty Hers – dim ond y Ty Hers sydd yn eiddo I'r Cyngor ac nid y Maes Parcio. Llwybyr gwifre Fferm Wynt Brechfa – yr A484 yw'r llwybyr mwyaf ffafriol ond heb ei gadarnhau. Ychwanegu 'Prif Weithredwr' I'r Cofnodion Saesneg. Cynnigiwyd; AN, eiliwyd; DD	
Materion yn codi	MH yn gweld dyn yn cerdded ei gi ac yn gwrthod codi baw y ci. **Ymddiriedolwyr y Neuadd** – Jo Davies yn derbyn y safle a Kate Frost yn gwrthod. **Cronfa Jenny Eirian** – I'w drafod ym Mis Ionawr. CS yn dweud y bydd angen addysgu'r Pwyllgor a fydd yn cael ei benodi I rheoli'r Gronfa ynglyn a ei ddibenion cyn trosglwyddo'r cyfrifoldeb. AN – angen edrych ar y Cyfansoddiad I weld beth sydd hawl ei wneud. Ai doeth fydde uno arian dros ben y Bwrdd Treftadaeth gyda'r Gronfa? **Toiledau** – AN; nid yw'r Cyfleusterau ar agor mwyach, ac mi fydd y Neuadd am y ddaear nôl. Angen llythyr I gadarnhau sefyllfa y Cyfleusterau. CS – mi fu diffyg esboniad ar TUPE o'r dechrau. Ydi'r Gofalydd bellach allan o waith? **Ethol Cynghorydd Newydd** – hysbysiad wedi ei wneud; rhaid aros tan Dydd Gwener yr 8fed o Rhagfyr I wybod a fydd etholiad neu beidio. I'w drafod ym Mis Ionawr. **Calonnau Cymru a gosod Defibrillator mewn Blwch Ffôn** – Chris Peake wedi gwrthod y cynnig I alw Pwyllgor. I'w drafod rhywbryd eto. **Y Wefan** – angen I'r Clerc I gysylltu gyda'r Dylunydd.	
Gohebiaeth	Trafod ceisiadau oddi wrth Elusennau am gyfraniadau ym Mis Chwefror.	

Cynllunio	Bwrdd Treftadaeth – o blaid Melin Wynt Pentremawr – allan o'r Plwyf ac felly dim I'w drafod. Maes Gwersylla ar Fferm Clyttie Cochion – dim gwrthwynebiad	
Materion Ariannol	Y Cyngor o blaid 3% o godiad I gyflog y Clerc. Y Clerc yn dddiolchgar ond yn gwrthod. Talu am yr Hysbysfwrdd – Cynnig WT; eilio DD Talu'r Cyfieithydd – cynnig WT; eilio DD Talu'r Neuadd – cynnig DD; eilio WT	
UFA	MH – baw cŵn a sbwriel yn parhau I fod yn broblem. Unigolyn o'r Pentre yn gofyn am ychwanegiad o oleuadau stryd gerllaw Bont Newydd/Safle Trîn Carthion. O'r diwedd, gwnaethpwyd peth gwaith ar glawdd Ty Nant. CS – angen tocio'r clawdd rhwng Siop Penbontbren a Thy Nant. Mae Bont y Felin wedi ei drwsio. AN – Angen ail lenwi'r Blychau Halen cyn y daw rhew DD – Cinio'r Cyngor. AN yn cynnig y Railway; cytunwyd cynnal y Cinio ar Nos Fawrth cyntaf Mis Rhagfyr. WT a IJ yn gadael y Cyfarfod am 9.00.	
Cyfarfod yn gorffen	21.05	

Cafwyd yn gywir : ……..
(Cadeirydd)

Dyddiad : ……..

Cafwyd yn gywir : ……..
(Ysgriennydd)

Dyddiad: ……